Ôl-ddyledion y dreth incwm

Y Dreth Incwm

Os ydych ar ei hôl hi gyda'ch taliadau treth incwm, dylech gysylltu â Chyllid a Thollau EM cyn gynted â phosibl.

Os nad ydych yn talu eich treth incwm, neu os nad ydych yn gallu dod i drefniant gyda Chyllid a Thollau EM, gallai'r canlyniadau fod yn ddifrifol iawn. Gallai Cyllid a Thollau EM:

- wneud cais i'r llys ynadon os oes gennych ôl-ddyledion sy'n £3000 neu'n llai. Bydd y llys yn anfon **gŵys** atoch gan ddweud pryd i fynd i'r llys ac ym mhle. Bydd y llys fel arfer yn eich gorfodi i dalu'r ôl-ddyledion ac unrhyw gostau eraill. Os ydych yn talu cyn y gwrandawiad, ni fydd unrhyw gweithredu pellach yn eich erbyn. Os ydych yn anghytuno â swm yr ôl-ddyledion, mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi cyn y gwrandawiad oherwydd nid yw'r llys ynadon yn gallu ystyried unrhyw anghydfod ynglŷn â'r swm

- ddod i'ch cartref i **gymryd eich eiddo** a'u gwerthu i godi arian er mwyn talu'r ôl-ddyledion. Nid oes hawl gan swyddogion Cyllid a Thollau EM i ddefnyddio grym er mwyn cael mynediad i'ch cartref ond os na allant gael mynediad heb ddefnyddio grym, gallant wneud cais i'r llys ynadon am warant sy'n eu caniatáu i dorri i mewn. Mae hyn yn anarferol iawn

- wneud cais yn y **llys sirol** yn eich erbyn. Os nad ydych yn talu, fe all fod yn anodd i chi gael credyd yn y dyfodol a gallant gymryd camau pellach yn eich erbyn, felly gallech golli eich cartref yn y pendraw

- gyhoeddi **gorchymyn statudol** os ydych wedi bod ar ei hôl hi gyda'ch taliadau treth incwm am dipyn o amser neu os oes £750 neu fwy yn ddyledus gennych. Dyma'r cam cyntaf o'ch **gwneud yn fethdalwr**. Os ydych yn cael eich gwneud yn fethdalwr, gallwch golli eich cartref. Os ydych yn cael gorchymyn statudol o Gyllid a Thollau EM, mynnwch gyngor gan ymgynghorydd dyled arbenigol yn syth.

Gwiriwch y ffigyrau

Os ydych yn cael gwybod eich bod ar ei hôl hi gyda'ch treth incwm, dylech bob amser wirio'r ffigyrau. Gan fod y system dreth mor gymhleth, mae biliau treth yn gallu bod yn anghywir o bryd i'w gilydd. Gofynnwch am ddadansoddiad o'r ffigyrau. Dylech wirio:

- os yw Cyllid a Thollau EM wedi gwneud unrhyw **gamgymeriadau** yn y swm sy'n ddyledus gennych. Os oes gennych ôl-ddyledion oherwydd gwall neu oedi swyddogol, gallai Cyllid a Thollau EM ddileu'r dyledion

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- os ydych yn gallu lleihau'r ddyled drwy wneud cais am **lwfansau neu ad-daliadau treth**. Cewch geisio am lwfansau ac ad-daliadau treth hyd at bedair blynedd ar ôl yr oeddent yn ddyledus (hyd at chwe blynedd ar gyfer rhai trethdalwyr). Weithiau, bydd Cyllid a Thollau EM yn gohirio cymryd camau yn eich erbyn er mwyn gweld p'un ai bod modd ôl-ddyddio'r ad-daliadau a'r lwfansau neu beidio.

- os mai amcangyfrif yw'r bil treth. Caiff bil amcangyfrifol ei adnabod fel penderfyniad. Gellir ei orfodi yn yr un ffordd ag unrhyw bil treth arall, hyd yn oed os yw'n anghywir. Fe fydd yn cael ei newid dim ond os ydych yn llenwi ffurflen dreth.

Os ydych yn credu bod eich treth incwm wedi cael ei hasesu'n anghywir neu wedi cael ei seilio ar amcangyfrifon, dylech gysylltu â'ch ymgynghorydd treth os oes gennych un neu cysylltwch ag un o'r sefydliadau arbenigol sydd wedi'u rhestru ar waelod y daflen ffeithiau hon.

Sut i ddelio â Chyllid a Thollau EM

Os ydych wedi gwirio eich ffigyrau ac rydych yn derbyn bod yr arian yn ddyledus gennych, dylech gynllunio cyllideb. Bydd hyn yn dangos faint o arian sydd gennych yn weddill ar ôl talu eich treuliau hanfodol megis costau byw a bwyd. Byddwch yna yn gallu ceisio dod i gytundeb gyda Chyllid a Thollau EM ynglŷn â sut i dalu eich ôl-ddyledion. Dylech gofio:

- y bydd Cyllid a Thollau EM bron bob amser yn gwrthod unrhyw gynnig a wneir i dalu rhan o'r ddyled. Nid ydynt fel arfer yn dileu dyled

- os nad oes gennych yr arian i dalu'r ddyled, gallech ofyn i Gyllid a Thollau EM am ganiatâd i dalu'n hwyrach. Efallai y byddwch yn gallu gwneud hyn os ydych yn ddi-waith, yn derbyn budd-daliadau ac os nad oes gennych unrhyw gynilion nag unrhyw beth gwerthfawr i'w werthu. Os ydynt yn eich caniatáu i wneud hyn a bod eich amgylchiadau yn newid, er enghraifft, oherwydd yr ydych yn cael swydd, bydd Cyllid a Thollau EM fel arfer yn ceisio casglu'r ôl-ddyledion

- bod llog yn cael ei ychwanegu at eich dyled trwy gydol y cyfnod nad ydych yn ei thalu. Ni all Cyllid a Thollau EM rewi'r llog i'ch helpu i glirio'r ddyled, yn wahanol i gredydwyr eraill

- y gallech ofyn am amser i dalu'r ôl-ddyledion. Mae'n rhaid i Gyllid a Thollau EM ystyried rhoi caniatâd i chi i wneud hyn. Bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth am eich incwm, gwariant a chynilion cyn y byddant yn ystyried hyn. Gallant eich caniatáu i dalu dros gyfnod o wythnosau neu fisoedd neu hirach ar adegau

- os oes gennych iechyd gwael neu os ydych yn anabl neu'n hen, dylech roi gwybod i Gyllid a Thollau EM oherwydd gallech gael eich trin gyda mwy o gydymdeimlad

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- y dylech roi gwybod i Gyllid a Thollau EM os mai hwn yw'r tro cyntaf i chi fod mewn dyled. Os ydych wedi mynd i drafferth o'r blaen, gallai hyn fynd yn eich erbyn.

Os oes angen amser arnoch i dalu, cysylltwch â'ch swyddfa dreth neu Linell Gymorth Hunanasesu Cyllid a Thollau EM ar 0845 366 1204.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Canolfannau Ymholiadau Cyllid a Thollau EM
Cewch gyngor rhad ac am ddim a chymorth gyda materion treth gan Ganolfan Ymholiadau Cyllid a Thollau EM. Cewch hyd i ganolfan ymholiadau lleol ar wefan Cyllid a Thollau EM: www.hmrc.gov.uk [link to: www.hmrc.gov.uk/eng/index.htm. Bydd angen i chi wneud apwyntiad yn gyntaf.

Taxaid
Os oes gennych incwm isel, efallai y gallwch gael cyngor gan **TaxAid**. Cysylltwch â llinell gymorth TaxAid ar 0845 120 3779, neu edrychwch ar y wefan: www.taxaid.org.uk Mae TaxAid yn cynhyrchu llyfryn defnyddiol o'r enw 'Tax debt? Can't afford to pay?' a gallwch ei lawrlwytho oddi ar y wefan www.taxaid.org.uk [Link to: http://taxaid.org.uk/wp-content/uploads/2010/02/Tax-Debt-guide-2010.pdf.]...

TaxHelp for Older People
Os ydych dros 60 oed, ar incwm isel ac os oes gennych ymholiad ynghylch eich treth, ffoniwch linell gymorth 'TaxHelp for Older People' ar 0845 601 3321, neu edrychwch ar y wefan: www.taxvol.org.uk.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Cymorth gyda dyled
- Delio â phobl yr ydych mewn dyled iddynt
- Y Daflen Gyllido
- Sut mae dyfarniadau'r llys sirol yn effeithio ar eich cofnod credyd
- Methdaliad
- Sampl o lythyrau sy'n ymwneud â dyled

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 22 Gorffennaf 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr